# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Gwener, 19 Chwefror 2021 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr L Lacey (Cadeirydd), G Berry, P Hourahine, M Al-Nuaimi, Y Forsey, C Ferris, M Evans, C Evans and J Hughes |
| Yn bresennol: | Gareth Price (Head of Law & Regulation), Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Rhys Thomas (Regulatory Services Manager – Environment and Community) and Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu) |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr |

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

Dywedodd Aelod ei fod wedi treulio llawer o amser gyda grwpiau ym Mhilgwenlli ac yn gweithio gyda'r Tîm Helpu Gofalu (THG)  fel ymgynghorydd, ac elusennau eraill sydd wedi gofyn am fynegi barn. Gofynnwyd i hyn gael ei gofnodi.

Dywedodd y Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio nad oedd hyn yn ddatganiad o ddiddordeb.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Nodwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2021 yn rhai cywir, gyda'r newidiadau a ganlyn:

- Tudalen 4 - "Gallai hyn gael effaith fawr ar ysgolion unigol o ran niferoedd athrawon a chefnogaeth." Gofynnwyd am newid hyn i - "Gallai hyn gael effaith fawr ar ysgolion unigol o ran niferoedd athrawon a ***staff cefnogi***", gan fod hyn yn effeithio ar y staff cefnogi am nad oes ganddynt hwy'r un warchodaeth ag athrawon.

**Materion yn codi:**

- Gwnaed sylw nad oedd unrhyw daflen weithredu wedi ei chynnwys ar yr agenda a dim cyfoesiadau am argymhellion o'r cyfarfod. Atebodd yr Ymgynghorydd Craffu y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys ar agenda mis Ebrill.

3 **Pill PSPO - 2021-2024 (Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus)**

Gwahoddwyd:

*This document is available in English / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg*

Gareth Price **Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio**

Rhys Thomas **Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio**

Sergeant Mervyn Priest **Heddlu Gwent**

Claire Drayton **Rheolwr Gwarchod Cymunedol**

Cyng. Ibrahim Hayat **Cynghorydd Ward Pilgwenlli - Cyngor Dinas Casnewydd**

Cyhoeddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad am y GGMC. Daethai'r GGMC blaenorol oedd mewn grym ym Mhilgwenlli i ben yng nghanol 2020, ac oherwydd bod hyn yn ystod y pandemig, hwn yw'r cyfle cyntaf i ddod â chynnig newydd gerbron.

Mae swyddogion gwarchod cymunedol wedi bod yn gweithio ar y GGMC mewn partneriaeth â'r heddlu. Y nod yw adnabod cyfyngiadau blaenorol, ystyried a fuont yn effeithiol ai peidio ac a oes angen eu newid, ac ystyried a oes angen unrhyw gamau rheoli pellach. Bydd y GGMC hwn a gynigir am 2021 yn gweld cynnydd mewn cyfyngiadau yn y GGMC, cynyddu gallu gorfodi rhwng wardeniaid diogelwch cymunedol a Heddlu Gwent. Nod y GGMC yw atal ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel ac ymateb i broblemau, a gallu rhoi rhybudd cosb benodol os bydd angen.

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y GGMC, a oes angen ei roi ar waith eto, ac amodau'r GGMC. Mae angen i'r pwyllgor ystyried a ydynt yn fodlon ai peidio gyda'r broses ymgynghori cyhoeddus. Soniwyd fel pwynt esboniadol mai drafft yw hwn sy'n mynd ymlaen i ymgynghori arno.

Yr oedd y Sarsiant Priest yn adleisio sylwadau Mr Rhys Thomas, gan gytuno â'r hyn a gyflwynwyd. Dywedodd y Sarsiant Priest y byddai'n croesawu unrhyw gwestiynau wrth i'r ymgynghoriad fynd rhagddo.

Dywedodd y Cynghorydd Ibrahim Hayat, sy'n cynrychioli Ward Pilgwenlli, y bu'r GGMC yn effeithiol o ran gwneud Pilgwenlli yn lle gwell i fyw ynddo. Mae'n bwysig gwneud yr ardal yn lle mwy dymunol. Fel cyngor, fe ddylem fod yn annog busnesau lleol i fuddsoddi yn yr ardal (h.y., Stryd Masnachol). Mae buddsoddiad wedi ail-gychwyn ers y GGMC. Mae angen sicrhau bod y GGMC hwn yn cael ei ymestyn a'i ail-sefydlu, gan roi i bobl yr hyder i fyw a buddsoddi yn ward Pilgwenlli.

Gofynnodd yr Aelodau y cwestiynau canlynol a'u trafod:

- Dywedodd aelod ei fod yn llawn gefnogi cynghorwyr Pilgwenlli sydd eisiau adfer y GGMC. Dywedwyd ei bod yn bwysig cydnabod y pwysau arbennig sy'n bodoli

yn ward Pilgwenlli. Mae'r adroddiad yn sôn mai bychan iawn oedd sancsiynau blaenorol (tudalen 22), ac mai ychydig o ddirwyon a roddwyd, yn enwedig mewn achosion o'r rhai sy'n cam-fanteisio'n rhywiol. Pam parhau i gynnwys y dirwyon os na fu llawer ohonynt yn y gorffennol?

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, yn ychwanegol at yr heddlu, fod wardeniaid diogelwch cymunedol hefyd wedi defnyddio pwerau GGMC. Defnyddiodd yr heddlu a'r wardeniaid diogelwch cymunedol y mesurau gorfodi hyn. Dywedodd y Sarsiant Priest nad cyhoeddi RhCB yw'r unig waith fyddai'n cael ei wneud gyda menywod sy'n cael eu hecsploetio yn rhywiol, ac nad hwy yw targed y GGMC hwn.

- Gofynnodd aelod sut mae 'ychydig' yn yr adroddiad hwn yn cael ei ddiffinio?

  Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y rhoddwyd 8 GGMC a 10 RhCB gan swyddogion y cyngor, a hefyd bod RhCB heb fod yn ymwneud â GGMC wedi eu rhoi, yn gysylltiedig yn bennaf â gollwng sbwriel.

- Gofynnodd aelod faint o les fyddai'r pŵer i gyhoeddi RhCB? Ac a yw hyn yn werth chweil o ystyried pa mor debygol y bydd yr heddlu i gyhoeddi'r RhCB hyn?

  Atebodd y Sarsiant Priest fod llawer o gefnogaeth gyfun ar gael i'r unigolion hyn (gweithwyr rhyw a phobl fregus eraill yn y gymuned), a bod cydnabyddiaeth fod hyn yn gysylltiedig â phroblemau eraill fel cyffuriau a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Erfyn yw'r RhCB hyn y gellir eu defnyddio gan y swyddogion, ond nid y nod yw cyhoeddi gormod o RhCB.

- Cododd aelodau fater ynghylch y cynigion yn y GGMC sy'n gysylltiedig â chardota. A fydd y GGMC yn rhoi mwy o fanylion am safleoedd penodol lle na fydd hyn yn cael ei ganiatáu, er enghraifft, ger peiriannau arian neu yn nrysau siopau?

  Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y gall y cyfyngiad presennol fod yn gymwys yn unman yn ardal Pilgwenlli, nid rhai ardaloedd penodol yn unig. Nid oes tystiolaeth i awgrymu fod angen y mesurau penodol hyn. Nid yw'n cael ei neilltuo i un man yn benodol (e.e., o flaen siop) fel y gall swyddogion ddehongli hyn fel y teimlant yr angen, a lle bo rhaid, rhoi'r rhyddid i swyddogion i symud pobl ymlaen.

- Gofynnodd aelod pryd y gorfodir y gorchymyn hwn?

  Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, os cytunir i hyn fyd allan i ymgynghori arno yn y cyfarfod hwn, y dygir y drafft terfynol yn ôl i'r Pwyllgor i gytuno arno ym mis Ebrill. Aiff wedyn i gyfarfod nesaf y Cyngor i gytuno i'w roi ar waith.

- Dywedodd aelod y bu 12 mis bellach heb GGMC ym Mhilgwenlli. Gofynnwyd beth oedd effaith hyn, ac a fu unrhyw ddigwyddiadau andwyol am na fu ar waith?

  Atebodd y Sarsiant Priest nad mater o bwerau'r heddlu yn unig yw hyn, ond hefyd i bartneriaid (e.e. wardeniaid diogelwch cymunedol) a sut y maent yn

ymwneud â'r gymuned. Gofynnodd yr aelod a yw llwyddiant y GGMC hwn yn dibynnu ar faint o adnoddau mae'r cyngor yn barod i'w neilltuo i'r maes hwn. Atebodd y Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio y deellir fod y cais am GGMC yn dod o du'r heddlu yn fwy na swyddogion y cyngor.

Aeth yr aelod ymlaen wedyn i ddweud, o safbwynt yr heddlu, na ddefnyddiwyd lalwer ar y pwerau hyn, felly a oes eu hangen? Ymatebodd y Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio trwy ddweud, o safbwynt CDC, fod y GGMC hwn yn ymwneud llawer mwy ag atal a rhwystro, nid o ran nifer y RhCB a gyflwynir, ond am wella a rheoli ymddygiad. Nid trwy gyfrif nifer y RhCB a gyhoeddir y mae mesur llwyddiant. Cytunodd aelod â'r pwynt hwn, gan ddweud y dylid defnyddio'r GGMC hwn fel erfyn ataliol yn hytrach na chyda'r nod o gyhoeddi mwy o RhCB.

- Bu cyfnod heb y GGMC; beth ddigwyddodd o ganlyniad? A fydd y GGMC hwn yn caniatáu i'r swyddogion wneud eu gwaith yn fwy effeithiol?

  Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio mai pwrpas y GGMC hwn yw cael y dulliau i drin ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cytunodd aelod ei bod yn bwysig pwysleisio mai un ffordd arall yw hon o orfodi'r drefn gyhoeddus a gwella ymddygiad yn yr ardal. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio nad gorfodi yn unig yw'r ateb delfrydol.

- Dywedodd aelod fod nifer o elusennau wedi dod i gysylltiad ag ef am y GGMC hwn. Lleisiwyd pryderon ynghylch ag a yw GGMC yn gweithio mewn gwirionedd. Gwnaed y sylw wedyn fod mudiadau fel Amnest Rhyngwladol yn gwrthwynebu cyfyngiadau fel y rhai sydd yn y GGMC, a'u bod yn hytrach o blaid dadgriminaleiddio gwaith rhyw. Mae hyn yn rhannol oherwydd pryderon eu bod yn gwthio'r broblem 'dan ddaear', lle nad oes modd ei drin. Rhaid canolbwyntio ar helpu'r unigolion sy'n dioddef cam-fanteisio rhywiol, yn hytrach na chreu'r posibilrwydd o'u troi'n droseddwyr. Mae cam-fanteisio a masnachu mewn pobl yn wir yn digwydd oddi ar y strydoedd.

  Mae geiriad y GGMC yn awgrymu y bydd yn caniatáu i swyddogion dargedu rhywun sydd ar y stryd yn cynnig gwasanaethau rhyw. Awgryma'r aelod ein bod yn ymgynghori â grwpiau arbenigol sy'n deall llawer am y materion hyn. Mae New Pathways yn awyddus i roi eu barn am y ddeddfwriaeth hon. Ceisiodd yr Aelod sicrwydd hefyd y byddwn yn holi barn y Wallich, New Pathways, a grwpiau estyn-allan lleol eraill ar y pwynt hwn yn y GGMC, a'n bod yn cael eglurder hefyd ynghylch a fydd rhywrai sy'n loetran yn cael eu targedu.

  Atebodd Claire Drayton yn gofyn am sicrwydd na fydd y GGMC yn targedu menywod sy'n cael eu hecsploetio yn rhywiol. Mae angen targedu'r sawl sy'n chwilio am y gwasanaethau hyn. Gofynnodd yr aelod a fyddai'r swyddogion yn cydnabod fod angen edrych ar y geiriad. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio nad yw'r GGMC hwn yn targedu gweithwyr rhyw. Nododd yr aelod y defnydd o'r gair 'ecsploetio' yn y GGMC hwn, gan ddweud ei bod yn bwysig ystyried y diffiniad o ecsploetio neu gam-fanteisio, gan y gall hyn fod yn fater dadleuol. Holodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio yr aelod a oes grwpiau y dylid ymgynghori â hwy nas crybwyllir yn y gwaith papur, ac os felly, gellir ymgynghori â hwy. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio y gallwn adolygu'r geiriad 'llithio a loetran' yng nghyswllt cam-fanteisio rhywiol

- Gofynnodd aelod am sicrwydd fod yr hyn a wnawn yn seiliedig ar dystiolaeth. Bu'r GGMC hwn a gorchmynion tebyg mewn bodolaeth ers tair blynedd yng nghanol y ddinas, ac y mae'n well synied amdanynt fel mesurau ataliol. Awgryma'r dystiolaeth y bu'r mesurau'n effeithiol am na welwyd ymddygiad bygythiol fel hyn yng nghanol y ddinas ers cyflwyno'r GGMC. A oes gennym dystiolaeth fod pobl wedi eu dadgriminaleiddio? A oes gennym dystiolaeth fod gweithwyr rhyw wedi eu trin yn annheg? Mae Cynghorwyr eisiau rhoi terfyn ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac eisiau i'r heddlu gael pwerau i atal sefyllfaoedd rhag datblygu. O ran atodiad 4, mae angen ymgynghori a charfan mor eang ag sydd modd o'r gymuned.

  Dywedodd aelod ei fod am fod yn glir nad yw'r GGMC hwn yn dadgriminaleiddio'r ymddygiad hwn, ond ein bod eisiau gwneud yn siŵr fod pobl fregus yn cael eu hamddiffyn.

  Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio am ymgynghori, gan esbonio fod grwpiau llywio cymunedol ar hyn o bryd wedi eu cynnwys. Bydd yn hapus i gynnwys grwpiau ychwanegol yn yr ymgynghori. Atebodd yr aelod gan ddweud bod llawer o arian wedi ei fuddsoddi i wneud Pilgwenlli yn lle dymunol i fyw a gweithio ynddo. Bydd yn bwysig felly cynnwys busnesau yn yr ymgynghoriad, gan eu bod wedi buddsoddi yn yr ardal.

- Dywedodd aelod fod canol y ddinas ar hyn o bryd yn dawel iawn, a holodd ai'r cyfan a wnaethom yw symud y broblem ymaith o'r canol ac i Bilgwenlli? Codwyd pryder hefyd am bobl sydd yn chwilio am wasanaethau rhywiol - a yw'r RhCB hwn yn gadael iddynt ddianc heb fawr ddim cosb?

  Atebodd y Sarsiant Priest fod cosbau'n bodoli ar hyn o bryd i bobl sy'n cael eu dal yn llithio am wasanaethau rhywiol yn yr ardal hon. Dywedodd y Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio na ddylid edrych ar gosb benodol fel dewis hawdd - mesur ataliol ydyw, sy'n rhoi pwerau ychwanegol i'r heddlu yn gynharach i atal pobl rhag dod i'r ardal

- Dychwelodd yr aelodau at bwnc nifer y dirwyon a gyhoeddwyd. Rhoddwyd cyfanswm o 211 dirwy dros 3 blynedd. Y mae hyn yn ddefnydd rhesymol, a heb fod yn ormodol. Mae Cynghorwyr Ward Pilgwenlli yn byw ac yn gweithio yn yr ardal hon, ac wedi eu hethol at y diben hwnnw. Mae'n bwysig felly talu sylw i'r hyn a ddywed cynghorwyr o'r ardal hon. Cytunodd yr aelodau fod nifer o broblemau yn ardal Pilgwenlli a bod angen i ni gydnabod fod pobl yn byw ac yn gweithio ym Mhilgwenlli. Mae rhai o'r problemau ym Mhilgwenlli yn annerbyniol i'r trigolion sy'n byw yno. Mae angen i ni wrando ar farn y cyhoedd yno.

- Holodd yr Aelodau beth oedd yr ymateb yr ymgynghoriad â'r cyhoedd y tro cyntaf i hyn ddigwydd?

  Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio fod dulliau blaenorol o ymgynghori wedi cael ymateb is am nad oedd cymaint o bobl o gwmpas yn y gymuned. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio hefyd ei bod yn werth nodi mai cynnig ar gyfer Pilgwenlli yw hwn, ac felly ei bod yn hanfodol dwyn y trigolion lleol i mewn.

- Cyfeiriodd Aelodau at yr holiadur ar dudalen 20 yr adroddiad. O ran y cwestiwn ynghylch o le mae pobl yn dod, rhaid cael mwy o fanylion ynghylch a yw pobl o

Gasnewydd neu beidio, ai unigolion neu rywrai sy'n cynrychioli busnes neu elusen ydynt. Dylid rhoi'r pwysau dyladwy ar eu barn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am fynychu.

Casgliadau a sylwadau

- Cytunodd y Pwyllgor fod angen i gwestiwn 1 ar y ffurflen ymgynghori (Tudalen 30) roi mwy o fanylion am bwy oedd yn llenwi'r ffurflen, a oeddent yn byw yng Nghasnewydd neu y tu allan, ac a oeddent yn ymateb fel unigolyn neu ar ran mudiad. Os yn ymateb ar ran mudiad, dylid rhoi manylion am y grŵp er mwyn bod yn sicr beth yw ffynhonnell y wybodaeth.

- Yn ogystal â'r dulliau a awgrymwyd yn yr adroddiad, yr oedd yr Aelodau yn gobeithio y byddai'r ymgynghoriad yn cyrraedd grwpiau arbenigol, megis New Pathways, Tîm Helpu Gofalu (THG) a Pride ym Mhilgwenlli.

- Codwyd pryder am eiriad Gwaharddiad 9 - "*Ni ddylai neb fynd i'r ardal, ymwneud, loetran na llithio ar y strydoedd er mwyn ecsploetio rhywiol yn yr Ardal Gyfyngedig*", yn benodol, y gair "ecsploetio". Holwyd a fyddai modd gwirio'r diffiniad o "ecsploetio" yng nghyswllt materion o'r fath o ran cydsynio, ac o bosib edrych ar ddiffiniad Gwasanaeth Erlyn y Goron o'r gair. Awgrymodd Aelod hefyd y dylid tynnu'r geiriau "loetran" a "llithio" allan o'r geiriad.

- Gofynnodd y Pwyllgor, unwaith i'r ymgynghori cyhoeddus orffen, i'r canlyniadau a'r adroddiad terfynol gael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor ar 30 Ebrill 2021 i'w trafod ymhellach.

4 **Ymateb i'r Normal Newydd**

**Gwahoddwyd:**
Rhys Cornwall, **Pennaeth Pobl a Newid Busnes**

Cyflwynodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes yr adroddiad am ymateb i'r normal newydd. Bu newid mawr yn y ffordd yr ydym yn gweithredu fel sefydliad. Parheir i gyflwyno gwasanaethau mewn sawl ffordd; er enghraifft, bu ysgolion ar agor ar gyfer amrywiaeth o ddibenion. Yr ydym hefyd wedi dangos ein bod wedi gallu parhau i ddarparu gwasanaethau tra'n gweithio o bell. Pwrpas dwyn hyn i graffu arno yw cychwyn y sgwrs am yr hyn fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf. Dywedwyd y bydd yn annhebygol y byddwn yn dychwelyd i'r normal newydd am rai misoedd eto. Rhaid pennu sut beth fydd normalrwydd fel sefydliad. Y cynllun yw dwyn hyn i'r Cabinet dros y 3 i 6 mis nesaf i ystyried sut beth fydd ein model newydd.

Ymhen rhai dyddiau ar ddiwedd Mawrth, yr oedd tua 1200 o weithwyr yn gweithio o gartref. Yr oedd gan y rhan fwyaf o staff y cyngor liniaduron eisoes, ac yr oedd Office 365 eisoes ar waith. Dechreuwyd defnyddio Microsoft Teams hefyd, ac yr oedd Net Motion wedi hwyluso symudedd rhwydweithiau gweithio o bell. Yr oeddem eisoes mewn sefyllfa weddol dda i allu gweithio o bell. Efallai y dylid ystyried pam na wnaed mwy o weithio o bell o'r blaen? Rhoddwyd cyfarpar gweithio-o-bell i'r staff fel y gallant weithio o gartref yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae gennym rai aelodau staff o hyd yn gweithio yn y Ganolfan Ddinesig ar gyfer gwasanaethau hanfodol, ond gorau po leiaf o bobl fydd yno. Bu'n rhaid gwneud rhai newidiadau i'r polisi hefyd, er enghraifft, atal amser fflecsi, a arweiniodd at dalu goramser i

rai yn lle hynny. Mae'n bwysig hefyd ystyried yr effaith ar leihau carbon - mae'r milltiredd a hawliwyd am deithio wedi gostwng yn sylweddol. Mae parcio a thagfeydd traffig hefyd wedi gwella o gwmpas y ddinas.

Cafwyd effaith ar recriwtio hefyd - mae heriau yn gysylltiedig â dwyn pobl i mewn, eu harwain, eu hyfforddi, a rhoi gwybod iddynt am ddiwylliant y sefydliad. Fodd bynnag, y mae'r dull hwn o weithio o gartref yn apelio at lawer o bobl a all weld y math hwn o drefniant yn fwy deniadol am resymau personol. Bu gweithio o gartref yn gyfle i wneud pethau yn wahanol, er enghraifft, hyrwyddo gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Mae'n ddefnyddiol gallu gweithio mewn dull mwy hyblyg. Un o'r heriau allweddol yw lles y staff a'r aelodau. Mae dod i mewn i'r gwaith a bod gyda chydweithwyr yn fantais fawr, oherwydd yr elfen gymdeithasol, yn ogystal â chael cefnogaeth gyda materion gwaith. Mae'n hollbwysig cefnogi lles.

Fel cyngor, mae gennym oblygiadau ehangach hefyd i ddinas Casnewydd - rydym eisiau i'r canol fod yn ffyniannus, ac eisiau i bobl fyw yno. Fe all y ffaith fod llai o weithwyr yn dod i mewn i'r ganolfan ddinesig gael effaith andwyol, a bod llai o ddefnydd i ganol y ddinas a'r stryd fawr. Bydd angen i ni ystyried model hyblyg pan ddychwelwn i'r normal newydd. Mae'r hyblygrwydd ychwanegol hwn yr un mor berthnasol i aelodau, er enghraifft, mae Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (2021) yn cefnogi'r posibilrwydd o gyfarfodydd 'hybrid'.

Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod yn y gwaith papur adroddiad gan Brifysgol Southampton, gyda'r casgliadau ar dudalen 84. Cyngor Dinas Casnewydd oedd un o'r cynghorau a gymerodd ran yn yr adroddiad hwn.

Gofynnodd yr Aelodau y cwestiynau canlynol a'u trafod:

- Dywedodd yr Aelodau fod hwn yn adroddiad campus a chynhwysfawr iawn yn ei ymdriniaeth o wahanol agweddau o'r mater. Nodwyd y deilliodd rhai pethau cadarnhaol o'r amgylchiadau hyn. Y mae'n bwysig ein bod yn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i bawb: pobl y mae'n well ganddynt weithio o gartref, a'r rhai nad ydynt yn hoffi hyn. Os ydym yn symud i weithio mwy hyblyg, a fydd ar y staff angen contractau newydd?

  Cytunodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes nad yw gweithio o gartref yn addas i bawb, felly'r model 'hybrid' sydd orau. Dywedodd na fyddai o blaid cael pobl yn gweithio o gartref trwy'r amser. O ran contractau, dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod y rhain eisoes yn weddol hyblyg. Bydd angen i ni fod ymhellach yn y broses cyn gwybod sut y gall fod angen newid contractau.

- Holodd yr Aelodau a fyddai angen hyfforddi rheolwyr i ddelio â gweithio o gartref a chyfarfodydd wyneb-yn-wyneb?

  Atebodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod canllawiau wedi eu hanfon at reolwyr ynghylch cael cyfarfodydd anffurfiol, disgyblaeth gweithio, ac aros/gorffwys, etc.

- Ymatebodd yr Aelodau yn gadarnhaol i'r adroddiad hwn, gan ddweud nad mater i'r cyngor yn unig mohono, ond ei fod yn ymwneud â bywyd. Mae mantais fawr o yrru llai o filltiroedd, gwario llai o arian ar betrol ac yn y blaen, a hefyd llai o draul ar adnoddau o ran goleuo a gwresogi gweithleoedd. Fodd bynnag, yr oedd yr Aelodau eisiau codi rhai materion, gan ddweud ein bod yn fodau cymdeithasol, sy'n mwynhau toriadau a chael cinio gyda'n gilydd.
  Hefyd, mae pobl yn mynd o'r ganolfan ddinesig i ganol y ddinas, sy'n help i fusnesau lleol. Nid oes gennym stryd fawr brysur bellach, ac ni allwn anwybyddu'r niwed ehangach i gymdeithas gyfan. Gwnaed y sylw pellach mai'r

model hybrid sy'n ymddangos fel y ffordd orau ymlaen. O ystyried gweithwyr newydd yn benodol, bydd angen i'r model hybrid fod yn rhan o'u hyfforddiant cyflwyno a chynefino.

- Dywedodd yr Aelodau fod lles y staff a chanllawiau ynghylch ffiniau yn bwysig iawn. Mae costau i staff hefyd yn bwysig - e.e. cost gweithio o gartref. Er hynny, y mae'n gyfle gwirioneddol i leihau ôl troed carbon. Y mae'n bwysig yn awr cofnodi milltiredd teithio llesol a gwobrwyo hyn. Dylid cynnal arolwg o'r rhwystrau i deithio llesol ymysg ein staff. Sut gallwn ni ddefnyddio'r tanwariant (ar deithio) i wneud y mwyaf o gyfleoedd teithio llesol?

- Dywedodd yr Aelodau fod perygl i'r manteision swnio'n gyffrous ar gychwyn y broses, ond ein bod yn colli golwg ar fanteision gweithio mewn swyddfa. Mae hyn yn amlygu'r angen gwirioneddol am reoli pobl yn iawn. Mae gennym drosiant uchel o staff rheoli, ac y mae hyn yn berygl ar yr union adeg pan fydd arnom angen rheolwyr ardderchog. Mae'n bwysig hefyd ystyried yr effaith ar ganol y ddinas. Mewn llawer ffordd, mae hyn wëid gwthio AD ymlaen 5 mlynedd trwy hyrwyddo gweithio hyblyg. A fydd yr enillion tymor-byr hyn yn troi'n enillion tymor-hir?

  Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod y Ganolfan Ddinesig wedi ei dylunio ar gyfer byd nad yw'n bodoli bellach. Rhan yn unig o'r adeilad yr oeddem yn ei ddefnyddio hyd yn oed cyn y pandemig. Y mae'r adeilad hwnnw yn bwysig, gan ei fod yn rhan eiconig o Gasnewydd. Mae angen i ni ddarganfod sut y gallwn ddwyn mudiadau eraill i mewn i'r ganolfan ddinesig a gwneud y mwyaf o'r adeilad hwn. Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes hefyd mai'r mater mwyaf gyda thechnoleg yw'r drafferth gyda band eang yn y cartref. Dywedodd aelod, o brofiad blaenorol o weithio i elusen, fod cydbwysedd 3-2 o weithio o gartref ac mewn swyddfa yn gweithio'n dda.

- Tynnodd Aelodau sylw arbennig at yr arbediad o 235,000 milltir o Ebrill-Awst. Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod milltiredd y staff yn weddol isel ar hyn o bryd. Yr oedd yn bwysig hefyd faint o'r cyfarfodydd a'r ymwneud o bell fuasai wedi bod yn well petaent wedi digwydd wyneb yn wyneb. Cyfeiriodd Aelodau hefyd at deimladau o unigrwydd, a'i bod yn bwysig ystyried iechyd meddwl y staff, a lles yr unigolyn. Atebodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod cyfres o becynnau ar gael er mwyn lles pobl, a'u bod yn hoffi'r rhaniad rhwng gwaith a bywyd y cartref.
- Cododd yr Aelodau hefyd bwnc cyfarfodydd hybrid. Lleisiwyd pryderon am dynnu'r elfen ddynol o'r cyngor ac o gyfarfodydd. Rhaid i ni gydnabod fod gweithio o bell wedi esgor ar wasanaeth sy'n wahanol i'r arferol - nid busnes fel arfer mo hyn. Mae diffyg cyswllt yn broblem fwy o lawer, yn enwedig i drigolion bregus. Rhaid bod yn ymwybodol nad manteision cost-budd gwahanol agweddau o weithio o gartref, e.e. ôl troed carbon, yw'r darlun cyflawn. Er enghraifft, bydd pobl yn defnyddio llawer mwy o wres a thrydan yn eu cartrefi eu hunain, a gall hyn fod yn llai effeithlon nag yn y gweithle.

  Sicrhaodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes yr aelodau nad dangos y manteision ariannol oedd prif nod yr adroddiad hwn. Soniodd am yr angen o gofio nad yw'r Ganolfan Ddinesig yn adeilad effeithlon iawn o ran ynni (fe'i codwyd yn y 1930au). Bydd cynlluniau i symud rhannau o'r gwaith dinesig i lety mwy pwrpasol yn arbed ynni.

- Dywedodd yr Aelodau y bu llawer o ewyllys da ynghylch gweithio o gartref, ac yr ydym eisiau gwneud yn siŵr nad ydym yn cam-fanteisio ar hyn. A fydd modd i ni ystyried sut y gallwn helpu pobl sy'n gweithio o gartref, gyda lwfans am Wi-Fi yn y cartref, gosod desgiau i fyny ac ati? Atebodd aelod fod costau yn cydbwyso, wrth i ni arbed arian ar betrol, er bod treuliau'r tŷ yn uwch.

- Mae'r Pennaeth Pobl a Newid Busnes yn cydnabod fod hyn yn fater cymhleth. Mae elfennau cadarnhaol a negyddol i weithio o gartref, a bydd angen eu cydbwyso at y dyfodol, a sicrhau, pa bynnag gynllun fydd yn ymddangos, y gwneir y lwfans priodol am y math hwn o drefniant.

- Soniodd yr Aelodau am yr effaith ar brentisiaid a hyfforddeion, a bod cryn anfantais o geisio dysgu gan gydweithwyr yn y modd hwn. Soniwyd fod yr Orsaf Wybodaeth hefyd ar gau, ac a fydd modd ei hagor ar gyfer pobl fregus? Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes, wrth ystyried y model hybrid, y byddid yn canolbwyntio ymdrechion ar y gwasanaethau wyneb-yn-wyneb pwysicaf. Mae angen ystyried hefyd sut i ddefnyddio'r Ganolfan Ddinesig yn y ffordd orau. Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod datblygu staff yn agwedd bwysig iawn o'r cynllun hwn. Pan fyddwch yn cychwyn ar swydd newydd, yr ydych yn dysgu cymaint am y modd mae sefydliad yn gweithio, ac y mae'n anodd iawn gwneud hyn heb fod mewn awyrgylch lle mae llawer o bobl.

- Defnyddiodd Aelodau esiampl y Brifysgol Agored sydd wedi defnyddio'r cydbwysedd gweithio o gartref ers amser. Maent yn defnyddio mentoriaid taledig i helpu pobl i ddysgu beth mae angen ei wneud, a bod yno ar eich cyfer. Mae'n bwysig hefyd gwneud y pwynt fod gweithio o gartref dan amodau clo yn wahanol iawn i weithio o gartref dan amgylchiadau mwy normal.

  Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes ei fod ef wedi ei chael yn haws ymdopi â gweithio o gartref yn ystod yr haf pan nad oedd cymaint o gyfyngiadau. Mae'n waeth ar hyn o bryd oherwydd bod y cyfyngiadau clo yn llym iawn, a'r tywydd yn ddrwg.

- Holodd yr Aelodau beth yw camau nesaf y cynllun hwn?

  Atebodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod angen i ni ystyried sut i fwrw ymlaen, a bod hyn yn dibynnu ar amgylchiadau pob awdurdod lleol. Ceir adroddiad i'r Cabinet yn y 3-6 mis nesaf am y camau at y dyfodol.

- Gofynnodd yr Aelodau am bapur dewisiadau i roi canolbwynt i'r ddadl.

  Dywedodd y Pennaeth Pobl a Newid Busnes fod angen i ni siarad â'r staff am fanylion yr hyn maent hwy eisiau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am fynychu.

<u>Sylwadau a Chasgliadau</u>

- Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a chanmol y manylion a'i naws gadarnhaol.

- Trafododd y Pwyllgor Deithio Llesol, a holi a fydd modd i ni fesur ac arolygu nifer y milltiroedd teithio llesol a wneir gan y staff, a hefyd edrych i mewn i

bosibilrwydd gwobrwyo’r staff am gymryd rhan. Gofynnwyd hefyd a oedd modd i ni ymchwilio i weld a fydd hyn yn peri unrhyw rwystrau.

- Gofynnodd y Pwyllgor, unwaith i’r maes gwasanaeth ddatblygu dogfen y sgwrs yn bapur dewisiadau, iddo ddod yn ôl i’r Pwyllgor i ymgynghori arno, cyn iddo fynd i’r Cabinet.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Yn bresennol:
 Neil Barnett (Ymgynghorydd Craffu)

a) Cyfoesiad am y Blaen-Raglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Blaen-Raglen Waith, a hysbysu’r Pwyllgor am y pynciau i’w trafod yn nau gyfarfod nesaf y pwyllgor:

30 Ebrill 2021, yr eitem ar yr agenda;
 GGMC Pilgwenlli - 2021-2024 (Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus)

3 Mehefin 2021, yr eitemau ar yr agenda;
- Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol
- Normal Newydd

Daeth y cyfarfod i ben am 12.47 pm

Daeth y cyfarfod I ben am 12.47 pm